

**Grŵp Cyngori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19: Cymru
Dydd Iau 4 Mehefin 2020 16:00-17:30**

Trwy Skype.

Cam Gweithredu	Cyfrifol
1. Viv Harpwood ac Iloria Finlay i weithio gyda Ben Thomas i ddrafftio'r llythyr eglurhaol: cyngor cyfreithiol a'i rannu ag aelodau'r grŵp.	VH, IF, BT
2. Gofyn i'r Grŵp Cyngori ar Brofi ymateb i ymholiadau ar ddiogelwch	Ysgrifenyddiaeth
3. Yr Ysgrifenyddiaeth i rannu gwybodaeth y Comisiynydd Pobl Hŷn am sgamiau a chadw'n ddiogel	Ysgrifenyddiaeth
4. Carol ac Aled - paper ar ymateb rhyng-ffydd i olrhain ar yr agenda nesaf	Ysgrifenyddiaeth

Yn bresennol

Heather Payne (Cadeirydd), Aled Roberts, Aled Edwards, Alison Mawhinney, Alison Parken, Ben Thomas, Emma Bennett, Chantal Patel, Iloria Finlay, Helena Herklots, Idris Baker, Uzo Iwobi, Jon Luxton, Rhian Davies, Sean O'Neill, Shavanah Taj, Viv Harpwood, Carol Wardman

Nodyn o'r Cyfarfod

Rhif	Pwnc
1.	<p><u>Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau</u></p> <p>Gwnaeth y Cadeirydd gyflwyniadau a nododd ymddiheuriadau. Ymddiheuriadau gan Rocio Cifuentes, Joe Powell a Lisa Gerson.</p>
2.	<p><u>Cofnodion blaenorol</u></p> <p>Cytunwyd ar y cofnodion</p> <p><u>Camau gweithredu</u></p> <p>Dylid datblygu dogfen sylwebaeth ar y cyngor ar gydsyniad sydd eisoes wedi'i gylchredeg i'r GIG, gan ddefnyddio'r sylwadau a gafwyd gan y grŵp hwn</p> <p>Mae angen sicrhau'r gymuned glinigol mewn perthynas â'r cyngor cyfreithiol a gyhoeddwyd yn flaenorol ac a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r ffurf y dylai hyn ei chymryd. Dywedwyd mai dogfen sylwebaeth yw'r dull gorau, wedi'i symleiddio i amlinellu bod angen ymagwedd unigol tuag at bob claf. Mae'r grŵp yn dymuno sicrhau nad yw gwaith Cronfa Risg Cymru yn cael ei ddyblygu a bod angen ystyried y Ddeddf Galluedd Meddyliol hefyd.</p> <p>Cytunodd Viv Harpwood ac Iloria Finlay i weithio gyda Ben Thomas i ddrafftio llythyr eglurhaol a'i rannu ag aelodau'r grŵp. Gwahoddir holl aelodau'r grŵp i roi cyngor hefyd.</p> <p>Ap Olrhain</p>

	<p>Codwyd pryderon ynghylch twyll a pheryglon diogelwch o ran tracio ac olrhain. Mae'r grŵp yn pryderu'n ddifrifol am y rhai sydd mewn perygl. Mae elfennau troseddol yn gallu dynwared y dulliau gweithredu a ddefnyddir gan olrheinwyr yn hawdd. Mae'r undebau llafur wedi codi hyn gyda'r Gweinidogion a dylid codi'r pryderon hyn ar draws y grwpiau cymunedol o gofio'r effaith bosibl ar yr henoed yn arbennig. Bydd y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn cael sesiwn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu'r system Profi, Tracio ac Olrhain, fel cyfle i godi materion ynglŷn â sgamiau posibl.</p> <p>Mae Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn cyhoeddi gwybodaeth a datganiad i'r wasg gyda grŵp o 20 + o sefydliadau yfory/dydd Llun i dynnu sylw pobl hŷn at risgiau sgamiau, gan gynnwys hyn. Yr Ysgrifenyddiaeth i rannu.</p>
3.	<p><u>Trafodaeth ar bapur y cynllun adfer</u></p> <p>Gan ddefnyddio'r sylwadau a ddarparwyd ers y cyfarfod diwethaf, cyflwynodd Heather Payne bapur yn amlinellu dull gweithredu Gwerthoedd ac Egwyddorion. Roedd amrywiaeth eang o bwyntiau wedi cael eu darparu ac mae'n amlwg bod materion tebyg yn cael eu hwynebu gan yr amrywiol gymunedau sy'n cael eu cynrychioli. Croesawyd y sylwadau ar y ddogfen ddrafft ynghylch y dull y dylai'r grŵp hwn ei weithredu er mwyn darparu'r lefel gywir o gymorth.</p> <p>Cytunodd nifer o aelodau fod angen i unrhyw ddogfen bennu camau gweithredu yn erbyn maes polisi penodol ac ystyried a oes eu hangen ar sail tymor hir neu yn y tymor byr. Mae angen i'r ddogfen ganolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd a'r hyn y gellir ei ddefnyddio. Trafodwyd materion yn ymwneud â hygyrchedd a'r iaith, a chanlyniad y rhain. Trafodwyd terminoleg hefyd a hoffai'r grŵp osgoi'r term 'agored i niwed' a'i ddisodli â risg.</p> <p>Codwyd y ffaith bod y ffrwd waith BAME yn creu cyfres newydd o werthoedd a brys. Roedd galwadau i'r ddogfen gan y grŵp hwn rannu'r dull dynamig hwn.</p> <p>Mynegwyd pryderon ynghylch gwasanaethau hanfodol megis canser a'r galon. Codir cwestiynau ynghylch sut y bydd yr ôl-groniad yn cael ei drin a'i flaenoriaethu. Mae angen penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau y mae angen eu blaenoriaethu ac mae moesau a moeseg yn bwysig iawn o fewn hyn. Mae Llywodraeth Cymru a'r GIG ar hyn o bryd yn ystyried blaenoriaethu adnoddau ac mae gan y cyflyrau hyn ffrydiau gwaith gweithgar iawn sydd wedi'u pennu iddynt. Mae ad-drefnu gwasanaethau i geisio sicrhau manau o driniaeth am ddim yn ystyriaethau pwysig er mwyn gallu dychwelyd i wasanaethau, ond mae'n anodd eu gwarantu.</p> <p>Cytunodd y grŵp fod angen i glinigwyr ystyried amgylchiadau unigol, yn hytrach na dim ond ystyried pobl fel rhan o grŵp. Mae angen cael gofal sy'n briodol yn ddiwylliannol ac yn grefyddol. Codwyd y ffaith hefyd nad oedd effaith trais domestig yn cael sylw.</p> <p>Ystyrir bod Gofal Iechyd a Seilir ar Werth yn gyfle i ychwanegu gwerth rhyngweithiadau yn seiliedig ar y camau y mae clinigwyr yn eu cymryd. Rhaid ystyried iechyd hefyd yng nghyd-destun ehangach materion sy'n effeithio ar fywyd unigolyn, o amddifadedd, addysg, tai a dewisiadau ffordd o fyw.</p> <p>Mae angen gwerthfawrogi a chydabod gofal cymdeithasol am y rôl y mae'n ei chwarae ym mywydau pobl. Mae angen cefnogi byw'n annibynnol. Mae angen ystyried gofal cymdeithasol ar yr un lefel ag iechyd, ac nid dim ond yng ngoleuni'r ffordd y mae o fudd i'r gwasanaeth iechyd. Bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi o fudd i faterion iechyd hirdymor. Oherwydd y lefelau uchel o dlodi yng Nghymru a'r effaith ar iechyd,</p>

	<p>mae'r GIG yn tueddu i ganolbwyntio'n fwy ar drin salwch ac mae'n defnyddio mwy o adnoddau i wneud hynny. Mae mentrau sy'n anelu at hyrwyddo lles a byw'n annibynnol yn cael eu gwasgu wedyn. Mae angen ystyried materion amgylcheddol hefyd. Mae'n rhaid i atal gael ei hybu o dan gylch gwaith brys.</p> <p>Mae angen i leisiau ailadrodd y meysydd hyn a darparu pwysau gwleidyddol. Mae'n debygol y bydd angen ymateb i ymholiad ynghylch Covid-19 yn y dyfodol ac mae'r grŵp am sicrhau eu bod wedi ystyried gwerthoedd a chyfansoddiad Cymru a'r meysydd y mae angen mynd i'r afael â nhw.</p> <p>Nodwyd bod yn rhaid i unrhyw ymateb fod yn anwleidyddol ond y dylid cyflwyno'r achos moesol dros beth sy'n bwysig yn awr a gadael i'r wleidyddiaeth benderfynu sut y caiff y rhain eu cymhwyso. Mae angen i'r grŵp hwn siarad am y materion y mae'n eu gweld a chyflwyno'r dystiolaeth i gefnogi'r datganiadau.</p> <p>Holodd y grŵp a oedd angen dwy ddogfen: un i benderfynu beth sydd angen ei ystyried yn awr, ac un ar gyfer y tymor hirach. Mae angen rhestr frys o gamau ymarferol i'w hystyried yn awr gyda chyfeiriad at y fframwaith moesegol ymlaen llaw ac yna ddogfen hirach sy'n nodi'r syniadau ehangach tymor hir y gallwn gael amser i'w drafod/trafod.</p> <p>Gorffennodd y grŵp y drafodaeth trwy i ba raddau y mae eu cyngor yn gyfarwyddeb yn erbyn darparu cyngor.</p>
4.	<p><u>Unrhyw fater arall–</u></p> <p>Cyfarfod nesaf Cytunwyd i gyfarfod eto mewn pythefnos.</p>